

Ymateb Estyn i'r cynnig i uno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal-y-Bont ac Ysgol Trefriw

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghorol hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r cynnig i uno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal-y-Bont ac Ysgol Trefriw i ffurfio ysgol gynradd gymunedol newydd o fis Medi 2017. Y cynnig yw darparu'r ysgol newydd ar safle Ysgol Dolgarrog mewn adeiladau newydd sy'n cael eu hariannu gan raglen Llywodraeth Cymru Ysgolion yn yr 21ain ganrif.

Crynodeb/ Casgliad

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu manteision y cynnig yn ddigonol o ran mynd i'r afael â'r lleoedd sydd dros ben ym mhob un o'r tair ysgol ar hyn o bryd, a datblygu adeiladau ysgol mwy priodol i fodloni anghenion disgyblion yn yr ardal yn fwy effeithiol.

Fodd bynnag, nid yw wedi darparu barn y consortiwm rhanbarthol am yr ysgolion, ac nid yw ychwaith yn darparu unrhyw ddadansoddiad o ddata perfformiad presennol neu ddiweddar ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion. Mae'r diffyg gwybodaeth yn ei gwneud yn anodd barnu effaith debygol y cynnig ar safonau yn yr ysgol newydd arfaethedig.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig. Mae'r cynigiwr yn dangos yn glir sut bydd uno'r tair ysgol ac adeiladu ysgol gynradd gymunedol newydd yn mynd i'r afael â nodau rhaglen moderneiddio ysgolion cynradd y cyngor,

sef lleihau nifer y lleoedd dros ben, sicrhau cyllid mwy cyfartal ar gyfer disgyblion a gwella addasrwydd diben adeiladau ysgol presennol ar draws yr awdurdod.

Mae'r cynigiwr yn cyfeirio'n fras at fanteision disgwylidig y cynnig, gan gynnwys effaith gadarnhaol yr uno ar ansawdd yr amgylchedd dysgu, arweinyddiaeth a deilliannau posibl ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn ystyried y rhain yn fras yn unig. Nid yw wedi darparu na dadansoddi unrhyw ddata perfformiad diweddar ar gyfer y tair ysgol mewn unrhyw fanylder i gefnogi'r ddadl y byddai uno yn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal o leiaf yn yr ysgol newydd.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried anfanteision disgwylidig y cynnig, gan gynnwys goblygiadau lefelau staffio presennol ym mhob un o'r tair ysgol, heriau gweithredol sefydlu ysgol newydd a cholli dwy ysgol bentref. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi arfarniad o'r rhain ac nid yw'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw un o'r anfanteision a nodwyd yn y ffordd y mae'n rheoli risg o ganlyniad.

Un risg yn unig sy'n gysylltiedig â'r cynnig a nodwyd gan y cynigiwr, sef efallai na fydd y cynnig yn cael ei gefnogi a'i gymeradwyo gan gabinet Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy. Nid yw'n ystyried anfanteision yr uno arfaethedig yn risgiau i'w rheoli, ac nid yw ychwaith yn ystyried risg bosibl rhieni o Ysgol Trefriw yn dewis darpariaeth arall, a fyddai'n debygol o arwain at ostyngiad yn niferoedd y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol newydd. Yn olaf, nid yw'n nodi'r effaith bosibl y gallai'r ysgol newydd ei chael ar niferoedd y disgyblion a allai wneud cais i fynd i ysgolion lleol eraill yn yr ardal.

Mae'r cynnig yn nodi'n glir y modd y cwblhaodd Gwasanaethau Addysg Conwy werthusiad cynhwysfawr o ddewisiadau yn 2013 fel rhan o'u rhaglen i foderneiddio ysgolion cynradd. Gofynnodd hyn yn briodol am farn rhieni, staff, llywodraethwyr, disgyblion a chymunedau ehangach Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal-y-Bont ac Ysgol Trefriw ar bedwar dewis ar gyfer dyfodol yr ysgolion dan sylw. Roedd y rhain yn cynnwys y cynnig presennol i adeiladu ysgol ardal newydd ar safle Dolgarrog; y dewis i gynnal y sefyllfa bresennol; y dewis i greu ysgol ardal newydd trwy ailfodelu Ysgol bresennol Dolgarrog; a'r dewis i greu ysgol ardal newydd dros y tri safle presennol. Mae'n ymddangos bod y cynigiwr yn nodi rhesymau cadarn ar gyfer mabwysiadu'r cynnig ar sail y lle cyfyngedig sydd ar gael ar ddau o'r tri safle, natur hen ffasiwn adeiladau presennol yr ysgolion a'r cyfyngiadau ar gael cyllid trwy Raglen Ysgolion yn yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar drefniadau teithio disgyblion a'u gallu i elwa ar y ddarpariaeth. Mae'r cynnig yn datgan yn glir ei fod yn rhagweld cynnydd yn y cludiant a ddarperir, gan y bydd rhywfaint o gynnydd yn nhaith rhai disgyblion i'r ysgol briodol agosaf. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion o Ysgol Trefriw, fydd yn teithio bellaf. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod

lleol wedi datgan nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gynlluniau i newid ei bolisi ar gludiant plant i ysgolion, ac oddi yno.

Nid yw'r cynigiwr yn dangos yn glir sut bydd y cynnig yn lleihau nifer gyffredinol y lleoedd dros ben yn yr ardal. Mae'r cynigiwr yn nodi nifer y lleoedd dros ben ar hyn o bryd, sef 44%, 63% a 68% yn Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal-y-Bont ac Ysgol Trefriw yn y drefn honno, ac mae'n honni y bydd datblygu ysgol ardal newydd yn lleihau nifer y lleoedd dros ben yn sylweddol. Mewn man arall yn yr adroddiad, mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am niferoedd arfaethedig y disgyblion ar gyfer yr ysgolion presennol yn y pum mlynedd nesaf, ond nid yw'n cysylltu hyn ag amcangyfrif o nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol newydd.

Mae'r cynnig i uno'r tair ysgol yn annhebygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Mae pob un o'r tair ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 1 ar hyn o bryd, fel y byddai'r ysgol newydd arfaethedig.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yn fras yn unig. Mae'r cynnig yn cyfeirio'n briodol at arolygiadau diweddaraf yr ysgolion gan Estyn. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ar gyfer Ysgol Tal-y-Bont yn dyddio o 2010 ac nid yw'r cynnig yn darparu unrhyw ddadansoddiad o ddata perfformiad presennol ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion. Mae'n rhestru nifer o fanteision posibl ar gyfer deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth a fyddai'n codi o'r ysgol unedig. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ychwanegol, cyfle gwell i ddisgyblion a staff fanteisio ar arbenigeddau, adnoddau a chyfleusterau ychwanegol a mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad staff sydd â photensial ar gyfer strwythurau staffio a rheoli arbenigol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth ac nid yw'r cynnig yn arfarnu'r rhain mewn unrhyw fanylder. At ei gilydd, nid yw'n nodi'n glir sut y byddai'r manteision posibl yn cael effaith ar safonau ysgol.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith debygol y cynnigion i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gyflwr presennol yr adeiladau a'r cyfleusterau ym mhob un o'r ysgolion presennol ac yn cyferbynnu'r rhain â'r safle gwell a fyddai'n deillio o adeiladu ysgol newydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu ardaloedd ymarferol arbenigol, canolfan adnoddau llyfrgell, parthau synhwyraidd a chynefin, ac ardaloedd chwarae meddal a chaled.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n nodi ystod o grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anabledd. Mae'r cynigiwr yn honni nad oes unrhyw arwydd y byddai disgyblion dan anfantais pe bai'r cynnig i uno'r tair ysgol yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddadansoddiad

o'r modd y gallai'r cynnig effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau hyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, ac nid yw'r cynigiwr yn darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad cyffredinol hwn.

Mae'r cynigiwr yn dangos, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, y bydd gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol newydd yn digwydd ar safle presennol Ysgol Dolgarrog tra bydd yr ysgol bresennol yn parhau i weithredu. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn dangos sut mae'n bwriadu lleihau aflonyddwch posibl i ddysgwyr na staff presennol yn yr ysgol.